

Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

- Gyda chyflwyniad pasys bws TrC newydd o fis Medi 2019, cafodd llawer o ddeiliaid pasys bws cyfredol eu difreinio gan na allent ddefnyddio TG, e-dechnoleg, ffurflenni ar-lein ac ati, a arweiniodd at lawer o staff llyfrgell ledled Cymru yn gorfod cwblhau'r ceisiadau ar ran aelodau'r cyhoedd. Allwch chi rannu copi o'r cytundebau lefel gwasanaeth a wnaed drwy gydweithio ag awdurdodau lleol mewn perthynas â hyn a rhoi gwybod i mi a oedd cytundebau rhannu gwybodaeth ar waith neu eu hangen.
- Rai wythnosau ar ôl y newidiadau ym mis Medi 2019, cyflogodd TrC staff dros dro i barhau i gyflawni ceisiadau pasys bws ar safleoedd awdurdod lleol/llyfrgelloedd, a oedd cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle ar gyfer hyn?
- Wnaeth TrC ystyried lleoli'r staff dros dro hyn i gwblhau ceisiadau pasys bws mewn adeiladau gorsafoedd bws/trenau?
- Ydy'r awdurdodau lleol wedi derbyn unrhyw daliadau trosglwyddo neu iawndal am gael defnyddio eu staff wrth gefnogi TrC?

Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mae'r 22 cyngor yng Nghymru yn rheoli cynlluniau teithio rhatach o dan Ddeddf Trafnidiaeth (2000). Yn 2019, cytunodd cyngorau ar ddull ar y we fel y gellid newid pasys bws gwyrdd am rai newydd.

Cytunodd y cyngorau ar gytundeb asiantaeth gyda TrC i ddarparu swyddogaethau penodol sy'n gysylltiedig â'r broses i gael pasys newydd; yn bennaf swyddogaethau TG a chymorth desg gymorth ganolog. Mae'r Cytundeb Asiantaeth ynghlwm.

Disgrifir trefniadau rhannu gwybodaeth yn <https://trc.cymru/cerdynteithio-datganiad-preifatrwydd-cerdyn-teithio>.

Darparodd TrC staff dros dro i helpu deiliaid cardiau i ailymgeisio am gardiau teithio yn defnyddio'r wefan. Helpodd hyn i ysgafnhau'r pwysau ar staff rheng flaen mewn rhai swyddfeydd cyngor allweddol. Fe wnaeth cyngorau helpu i nodi'r arferion gorau i ddefnyddio'r tîm, a manau cyswllt cwsmeriaid allweddol y cyngorau (fel y Llyfrgell Ganolog yng Nghaerdydd) oedd y manau lle cafwyd y galw uchaf.

Gwnaed ceisiadau am dros 90% o'r adnewyddiadau ar y wefan. Nid oedd cyngorau'n cael eu cyllido gan TrC, yn hytrach roedd TrC yn cynorthwyo'r cyngorau.

Gobeithio bod y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru